1. Cyflwyniad

Mae ein hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol yn adolygu ein perfformiad yn ystod 2025/26, yn adnabod meysydd i'w gwella, ac yn edrych ymlaen at y newid sefydliadol sy'n ofynnol hyd at 2027 a'r tu hwnt. Mae'n dwyn ynghyd ein dyletswyddau adrodd statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, gan gynnwys ein hasesiad o ba mor effeithiol yr ydym yn ateb ein gofynion perfformiad. O dan y dyletswyddau hyn, rhaid adolygu ein trefniadau perfformiad yn gyson, ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau, cydweithio gyda phobl, cymunedau a phartneriaid, a helpu i atal heriau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Yr **hyn** y mae gwasanaethau cyhoeddus yn anelu ato

Saith nod llesiant